PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 21 TACHWEDD 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Henshaw, Jenkins, Jones, Lloyd Jones a/ac Thomson |

## 44 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Shimmin.

## 45 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim

## 46 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 47 : RHEOLI CANOL Y DDINAS

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Aelodau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth weithredu ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-26 i gyflwyno trefniadau rheoli canol y ddinas newydd ac, yn hollbwysig, i glywed sut mae'r rhain yn cynorthwyo lles economaidd canol dinas Caerdydd.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas – Arweinydd; Jon Day – Rheolwr Gweithredol, Twristiaeth a Buddsoddiad; Richard Hyett – Rheolwr Canol y Ddinas a Carolyn Brownell – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro – Caerdydd AM BYTH.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Nododd yr Aelodau fod Wardeniaid yn defnyddio camerâu a wisgir ar y corff a gofynnon nhw gwestiynau ynghylch y defnydd ohonynt. Cytunodd y Swyddogion y bydd protocolau sy'n llywodraethu eu defnydd yn cael eu rhannu â’r Aelodau.

Dywedodd y Swyddogion fod wardeiniaid newydd yn cydweithio â'r heddlu, wardeiniaid eraill, a swyddogion diogelwch i atal ac ymateb i ddigwyddiadau, fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Siopladrata. Mae wardeiniaid hefyd yn cydgysylltu â thîm allgymorth y Cyngor ac yn gweithio ar atafaelu beiciau.

Trafododd yr Aelodau y cynnydd mewn Bysgio a Phregethu. Esboniodd y Swyddogion fod cytundeb gwirfoddol ar fysgio a bod mwy o reolaethau bysgio, gan gynnwys cyfaint a thorbwynt posibl o 9pm, yn cael eu hystyried.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch Hyrwyddwyr yn gorfod talu mwy am gostau glanhau ar ôl digwyddiadau ac ati. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y gallai cyllid Safleoedd Actifadu dalu am waith rheoli digwyddiadau a gwaith glanhau ar ôl digwyddiadau ac y gellir ystyried defnyddio'r Ardoll Dwristiaeth arfaethedig ar gyfer costau digwyddiadau yn y dyfodol.

Mynegodd yr Aelodau bryder am absenoldeb Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) a phwysleision nhw bwysigrwydd cwblhau AEGau a'u rhannu gyda phwyllgorau craffu, gan gyd-fynd â'r Cynnig y cytunwyd arno i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2023.

Wrth drafod dyfodol canol y ddinas, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Arolygon a gwaith casglu gwybodaeth yn llywio gwaith yng nghanol y ddinas yn y dyfodol a bod cydnabyddiaeth o fuddion Cyllid Ffyniant Cyffredin, gan gynnwys ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid os bydd y cyllid yn dod i ben ar ôl 2025.

Gofynnodd yr Aelodau am orfodaeth a chawsant wybod bod cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael ei ystyried.

Nododd Aelod, ar ymweliad diweddar â Chaerfaddon, fod Wardeiniaid wedi eu gwisgo fel Coblynnod Nadolig ac Angylion Nadolig, a dywedodd y gallai hyn fod yn rhywbeth i'w ystyried ar gyfer Caerdydd.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

48 : ADFERIAD CANOL Y DDINAS:

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Aelodau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu Cynllun Gweithredu Adferiad Canol y Ddinas.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas – Arweinydd; Jon Day – Rheolwr Gweithredol, Twristiaeth a Buddsoddiad; Richard Hyett – Rheolwr Canol y Ddinas; Carolyn Brownell – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro – Caerdydd AM BYTH ac Andrew Gregory - Cyfarwyddwr, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd prosiectau trafnidiaeth a oedd ar y gweill. Cydnabu'r Aelodau mai Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am y gyfnewidfa fysus newydd, a bod y Cyngor yn cyfathrebu â nhw ar y mater hwn.

Gan gyfeirio at Erddi Sophia a Choetsis Cenedlaethol, dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes penderfyniad eto ar ble y bydd coetsis yn dechrau/gorffen, gan fod rhanddeiliaid yn aros am benderfyniadau ar brosiectau fel y gyfnewidfa fysus a chyfleusterau'r Orsaf Ganolog.

Dywedodd y Swyddogion fod cynnydd da wedi'i wneud ar brosiectau trafnidiaeth eraill a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Adferiad Canol y Ddinas.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen gwelliannau i'r parc coetsis presennol yng Ngerddi Sophia er mwyn gwella diogelwch rhag y tywydd a gwella'r cysylltiad â bysus. Gwnaethant werthfawrogi'r gydnabyddiaeth o hyn a chroesawu'r ymrwymiad i ystyried dichonoldeb gwelliannau byrdymor.

Trafododd yr Aelodau yr ardal gyhoeddus a dywedwyd wrthynt fod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r palmentydd o amgylch Eglwys Sant Ioan a'r Gwter. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, oherwydd adnoddau cyfyngedig, nad yw'r Cyngor yn gallu mynd i'r afael â holl balmentydd canol y ddinas mewn un cynllun. Fodd bynnag, mae ymdrechion ar y gweill i drefnu gwelliannau lle mae adnoddau'n caniatáu.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd mai nhw sy'n gyfrifol am yr ardal gyhoeddus ger canolfan Dewi Sant II, a bod swyddogion wedi ymgysylltu â nhw ynghylch yr angen i wella'r palmentydd.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch dull y Cyngor o ddefnyddio tarmac yn hytrach na phalmentydd a gofynnon nhw am wybodaeth ychwanegol am sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Gwerthfawrogodd yr Aelodau yr ymrwymiad i adfer y garreg balmant gyda phlac, sy'n coffáu gwaith yr artist gosod Mr. Jean-Bernard Metais a Mr. Peter Finch, o flaen y cerflun celf gyhoeddus 'Alliance' sydd o flaen y Llyfrgell Ganolog.

Gwnaeth yr Aelodau gydnabod a gwerthfawrogi ymdrechion Caerdydd AM BYTH i wella mynediad i ddigwyddiadau a mannau i holl drigolion Caerdydd. Nododd yr Aelodau hefyd yr heriau a ddaw yn sgil chwyddiant a chyfraddau llog uchel presennol, gan effeithio ar brosiectau cyfalaf presennol a datblygiadau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â gwaith adfer canol y ddinas.

Mynegodd yr Aelodau bryder am absenoldeb Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) a phwysleision nhw bwysigrwydd cwblhau AEGau a'u rhannu gyda phwyllgorau craffu, gan gyd-fynd â'r Cynnig y cytunwyd arno i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2023.

Wrth drafod unedau gwag, cydnabu'r Aelodau fod defnydd preswyl yn dderbyniol yng nghanol y ddinas pan fo'n cyd-fynd â phrif rôl canol y ddinas, yn cyfrannu at hyfywedd economaidd, ac nad yw'n tanseilio'r defnydd cyflogaeth presennol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod pwyslais ar y defnydd posibl o fannau gan elusennau, grwpiau cymunedol, neu i ddarparu mannau tawel yng nghanol y ddinas, yn enwedig i unigolion â chyflyrau niwroamrywiol. Roedd yr Aelodau'n falch o ddysgu am ymdrechion parhaus gyda phartneriaid i hwyluso defnydd yn y cyfamser a phartneriaethau creadigol mwy parhaol a defnyddiau eraill. Yn ogystal, nododd yr Aelodau fodolaeth mannau tawel yng Nghanolfan Dewi Sant II.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod Caerdydd AM BYTH wedi arwain y gwaith o weithredu'r cynllun 'Ask Angela' ar safleoedd canol y ddinas. Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y cynllun a sut y bydd yn cael ei hysbysebu.

Dywedodd yr Aelodau eu bod yn gwerthfawrogi'r ymdrechion i gynorthwyo adferiad canol y ddinas a cheision nhw sicrwydd na fydd rhannau eraill o'r ddinas yn cael eu hesgeuluso. Croesawon nhw'r ymateb yn nodi cynlluniau penodol i gefnogi canolfannau ardal ledled Caerdydd.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 49 : DIWEDDARIAD AR Y FARGEN DDINESIG / PORTH Y GORLLEWIN

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Aelodau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y partneriaethau pwysig hyn a thrafod y rhain gyda'r Arweinydd.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas – Arweinydd; Gareth Newell – Pennaeth Partneriaethau a Pherfformiad a Jon Day – Rheolwr Gweithredol Twristiaeth a Buddsoddiad.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Wrth drafod pryderon ynghylch Craffu ar Fargen Ddinesig y Brifddinas-Ranbarth, roedd yr Aelodau'n falch o glywed y gefnogaeth ar gyfer yr angen i sefydlu trefniadau craffu priodol. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn sicrhau atebolrwydd y Fargen Ddinesig a'r Cydbwyllgor Corfforaethol i'r Aelodau. Cydnabu’r Aelodau hefyd yr ymateb o ran y ffocws ar y cyd sydd ei angen i sicrhau bod y trefniadau craffu cywir yn cael eu gweithredu.

Cydnabu'r Aelodau fod ymddiriedaeth a dealltwriaeth ymhlith y deg awdurdod lleol ym Margen Ddinesig y Brifddinas-Ranbarth wedi tyfu'n raddol yn ystod y 6 blynedd y mae wedi bod yn cael ei gweithredu a bod cydnabyddiaeth gynyddol bod buddsoddiad mewn unrhyw ran o'r rhanbarth o fudd i'r rhanbarth cyfan.

Wrth drafod sut mae Porth y Gorllewin yn gweithredu fel cydweithfa o'i gymharu â'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC), nododd yr Aelodau fod Porth y Gorllewin yn bartneriaeth wirfoddol sy'n cynnwys cyrff amrywiol. Mae'r strwythur hwn wedi hwyluso mwy o her a gwaith profi syniadau'n drylwyr, gan arwain at y gallu i fanteisio i'r eithaf ar gyllid Llywodraeth y DU.

Clywodd yr Aelodau fod Porth y Gorllewin yn bwriadu sefydlu Comisiwn Arbenigol i ddatblygu cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni ymhellach i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid. Mae Ynni Gwyrdd Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith ar y cynigion hyn.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ymgynghori â phobl ifanc. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod hyn wedi'i gydnabod, a bod bwriad iddo gael ei gynnal fel rhan o waith y Comisiwn Arbenigol ar yr adeg briodol.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 50 : STRATEGAETH ARIANNU’R ARENA DAN DO

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi’r Aelodau i graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i’r Cabinet. Cafodd yr Aelodau gyfle i ystyried y strategaeth ariannu arfaethedig, sut y caiff ei chyfansoddi, a sut mae risgiau allweddol yn cael eu lliniaru. Gallai’r Aelodau hefyd ystyried y systemau adrodd a monitro y gellir eu defnyddio i sicrhau bod y strategaeth ariannu ar y trywydd iawn a bod ei heffeithiau ar strategaethau ariannol ehangach y Cyngor yn cael sylw.

Atgoffwyd yr Aelodau fod Atodiadau 1 a 2 yn gyfrinachol a gofynnwyd iddynt beidio â chyfeirio atynt nes bod y Pwyllgor mewn sesiwn gaeedig.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas – Arweinydd; y Cynghorydd Weaver – Aelod Cabinet – Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee – Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau; Kyle Godfrey – Cyfrifydd Prosiect a Chris Barnett – Rheolwr Gweithredol, Prosiectau Mawr.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Joel Williams hefyd, a oedd yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, sy'n gyfrifol am graffu ar Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Gan y gallai'r Strategaeth Ariannu arfaethedig effeithio ar y rhain, gwahoddwyd y Cynghorydd Williams i fynychu i ofyn cwestiynau ar yr agweddau hyn.

Gwahoddwyd yr Arweinydd a’r Aelod Cabinet i wneud datganiadau agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Trafododd yr Aelodau agweddau amrywiol ar y Strategaeth Ariannu arfaethedig ar gyfer yr Arena Dan Do, gan gynnwys trefniadau benthyca, defnyddio cronfeydd wrth gefn, a risgiau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y strategaeth ariannu yn rhoi hyblygrwydd i'r Cyngor ddewis yr amser mwyaf addas ar gyfer trefniant benthyca hirdymor. Gallai hyn ddigwydd o fewn yr amserlen benthyca dros dro arfaethedig neu wedi hynny, yn dibynnu ar gyfraddau llog ffafriol.

Nododd yr Aelodau fod cronfeydd wrth gefn yr Ardal Fenter Ganolog a'r cronfeydd wrth gefn Rheoli Trysorlys yn cael eu defnyddio o fewn y strategaeth. Ystyrir bod y cronfeydd wrth gefn hyn yn sylweddol, gyda chyfran sylweddol wedi'i neilltuo i liniaru anwadalrwydd cyfraddau llog.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd derbyniadau cyfalaf yn talu tua 50% o gyfraniad cyfalaf £27.3M arfaethedig y Cyngor. Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch pa dderbyniadau cyfalaf sydd wedi'u clustnodi at y diben hwn.

Wrth drafod Risgiau ac yn benodol Rhagolygon Cyfraddau Llog, rhoddwyd gwybod i’r Aelodau fod arbenigwyr allanol yn darparu rhagolygon cyfraddau llog, a bod gan y strategaeth hyblygrwydd i ymdopi â siociau annisgwyl.

Trafododd yr Aelodau effeithiau posibl Datganiad Cyllideb yr Hydref. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn ystyried bod y strategaeth yn ddigon hyblyg i wrthsefyll newidiadau sy'n deillio o Ddatganiad Cyllideb yr Hydref.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y Maes Parcio Aml-lawr (MPAL). Cwestiynodd yr Aelodau yr angen am MPAL, gan ystyried ymrwymiad y Cyngor i leihau'r defnydd o geir. Esboniodd y Swyddogion fod darparu MPAL yn ymrwymiad cytundebol, a bod incwm o'r MPAL wedi'i gynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol, gyda mesurau lliniaru ar gyfer risgiau incwm posibl.

Mynegwyd pryderon am y ffaith bod Live Nation yn fonopoli yn y diwydiant cerddoriaeth fyw. Dywedodd y Swyddogion y byddai unrhyw bryderon yn y maes hwn yn dod o dan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan gydnabod Live Nation fel chwaraewr mawr sy'n cefnogi’r arena arfaethedig yn fawr.

Cynhaliwyd trafodaeth ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG). Nododd yr Aelodau absenoldeb AEG yn yr adroddiad a dywedon nhw y dylai adroddiadau i'r Cabinet yn y dyfodol gynnwys AEG, gan gyd-fynd â'r Cynnig y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2023.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am nifer y papurau cyfrinachol, gan gyfyngu ar ymgysylltiad y cyhoedd. Gwnaed cais am wybodaeth am y broses ar gyfer penderfynu pa bapurau sy'n gyfrinachol a sut y gwneir y penderfyniad i symud craffu i sesiwn gyfrinachol.

Barnau Lleiafrifol

Mynegodd y Cynghorydd Berman a'r Cynghorydd Brown-Reckless bryderon difrifol am fforddiadwyedd yr Arena Dan Do ac effaith Cyfraniad Cyfalaf £27.3 miliwn y Cyngor ar gyllid ar gyfer gwasanaethau eraill yn y dyfodol. Roeddent am nodi nad oeddent yn cefnogi'r strategaeth ariannu arfaethedig.

Mynegodd y Cynghorydd Berman a'r Cynghorydd Brown-Reckless bryderon am nifer y papurau cyfrinachol, gan gyfyngu ar ymgysylltiad y cyhoedd. Gwnaethant ofyn am adolygiad o'r broses i leihau nifer y papurau cyfrinachol a swm y craffu mewn sesiynau cyfrinachol.

PENDERFYNWYD - Eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod ar y pwynt hwn tra bod y Pwyllgor yn trafod yr eitem hon a oedd yn cynnwys gwybodaeth wedi’i heithrio yn unol â’r disgrifiad ym mharagraffau 14 a 16 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

Dymunai'r Cynghorydd Brown-Reckless nodi iddi wrthwynebu i'r cyfarfod beidio â mynd yn ôl i sesiwn agored gyda'r panel tystion ar ôl y sesiwn gaeedig, i ofyn cwestiynau pellach. Roedd hefyd am nodi ei bod yn teimlo nad oedd wedi cael digon o amser i ofyn cwestiynau a'i bod wedi gofyn am siarad (o bell) ond nad oedd wedi cael mynd yn ôl i'r cyfarfod.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

51 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Aeth y Prif Swyddog Craffu â'r Aelodau drwy'r rhaglen waith ac amlinellodd y newidiadau a wnaed ers ei chyhoeddi, gofynnodd yr Aelodau gwestiynau a nodon nhw yr hoffent ymweld ag Ysgol Farchogaeth Caerdydd, Planhigfa Parc Bute a Thŷ Gwydr Parc y Rhath. Dywedodd yr Aelodau y byddai'n synhwyrol oedi craffu ar y Ddinas Parc Cenedlaethol, gan eu bod yn ymwybodol bod y gwaith ar hyn wedi’i oedi ar hyn o bryd. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn dymuno craffu ar gynigion Argae Parc y Rhath pan oedd y rhain ar gael i'w craffu. Cytunodd yr Aelodau gyda'r awgrym i symud y Craffu Byr arfaethedig ar Wasanaethau Cyflogaeth hyd nes ymlaen yn y flwyddyn, mis Mawrth/Ebrill, i ryddhau amser ar gyfer craffu cyn penderfynu a oedd wedi llithro o ddechrau'r flwyddyn.

Gyda'r newidiadau hyn, roedd yr Aelodau'n fodlon cytuno ar y rhaglen waith a chytuno i Flaenraglen Waith Ionawr- Ebrill 2024 gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

52 : GOHEBIAETH

Nodwyd.

53 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

54 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12 Rhagfyr 2023 am 4:30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 pm